


TAITH EICH SBWRIEL



Mae gollwng sbwriel yn gallu lladd. Gall un darn o sbwriel deithio trwy'r amgylchedd, gan ladd nifer o anifeiliaid, wrth iddo dreulio cannoedd neu filoedd o flynyddoedd i bydru'n ddim

Mae sbwriel yn gallu cael ei chwythu i afonydd, gan achosi difrod wrth iddo deithio trwy gynefinoedd, gan ddiweddu yn y pen draw ar ein traethau ac yn y môr.



**Cymoni
eich
Cymuned**

Mae bywyd gwyllt, megis morloi a dolffiniaid, yn gallu mynd yn sownd mewn sbwriel ar y traethau neu yn y môr, gan achosi iddynt foddi. Mae adar y glannau ar Ynys Dewi yn codi sbwriel gan feddwl mai bwyd ydyw. Maent yn bwydo'r sbwriel i'w cywion, sy'n cau eu stumogau, ac mae hyn yn arwain at newyn.

Mae hyd yn oed sbwriel sy'n cael ei ollwng mewn trefi yn Sir Gaerfyrddin yn gallu cyrraedd ein harfordir.

Mae sbwriel sy'n cael ei ollwng yng nghanol tref Caerfyrddin yn gallu cael ei gario gan y gwynt neu i lawr Afon Tywi gan lygru traeth Llansteffan yn y pen draw.

